Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Bala
# Tŷ Hwyl a Sbri
# Ffordd y Gerddi
# Y Bala
# Gwynedd
# LL23 7AY

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/03/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Bala, sydd wedi ei lleoli mewn caban ar safle un o ysgolion cynradd Y Bala, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad ar agor am bedwar dydd yr wythnos. Mae gan y lleoliad pedwar aelod o staff llawn amser ac un rhan amser.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 28 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 20 o blant yn y bore ac 19 yn y prynhawn. Mae 27 ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a thua hanner yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Tachwedd 2005. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau cadarnhaol o'u mannau cychwyn
- ymddygiad y plant yn barchus iawn
- ansawdd yr addysgu yn gyson effeithiol ac yn cefnogi dysgu llwyddiannus
- y ddarpariaeth ar gyfer gofalu, cefnogi ac arwain plant yn effeithlon a diwyd
- defnydd pwrpasol o'r holl staff, sy'n cefnogi'r plant
- y gymuned ddiogel a gofalgar, sy'n gwerthfawrogi pob plentyn yn gyfartal
- yr amgylchedd dysgu tu mewn i'r adeilad sy'n cael ei ddefnyddio'n greadigol i wella deilliannau'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd, staff a'r pwyllgor rheoli yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad
- hanes dibynadwy'r arweinyddiaeth o reoli gwelliannau dros amser yn effeithiol
- gwelliannau'n cael eu targedu'n llwyddiannus
- yr hunanarfarnu'n arwain at welliannau buddiol trwy'r cynllun datblygu
- staff yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu a hyfforddi proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant
- partneriaethau buddiol yn bodoli gyda'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, sy'n gwella'r ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfleoedd i blant i ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Mireinio'r cynllunio i sicrhau fod tasgau ffocws yn herio'r plant mwy abl

A3 Gwella'r ddarpariaeth o'r meysydd dysgu yn yr ardal allanol, yn enwedig llythrennedd a rhifedd

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau da erbyn diwedd eu hamser yn y lleoliad, o ystyried eu mannau cychwyn. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn yr hyn y maent yn eu gallu gwneud yn ddyddiol, ac yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau trwy chwarae rôl, meimio a chynnal trafodaethau'n synhwyrol ag oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un plentyn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod eraill yn eu deall mewn tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau wrth oedolion a chyfoedion ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a strwythuredig. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau'n hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Mae llawer yn trin y llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori a thrafod y gaeaf a thywydd garw yn ystyrlon.

Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau'n effeithiol. Maent yn mwynhau'r profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a gliter. Mae llawer o'r plant hŷn yn ffurfio rhifau a llythrennau'n briodol. Maent yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu trwy gofio enwau ei gilydd, trefnu llythrennau, a rhannu syniadau am yr hyn maent yn ceisio nodi ar bapur neu ar fwrdd gwyn. Mae lleiafrif o'r plant hŷn yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol ac mewn ffurf adnabyddus wrth beintio, trafod pensiliau, lliwio gyda chreonau a chyfeirio anrhegion i bobl benodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis a defnyddio syniadau, offer a deunyddiau mathemategol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i ddeg yn hyderus ac ychydig yn cyfrif hyd at 20. Mae'r mwyafrif o blant yn deall yn glir sut i restri rhifau mewn trefn o'r cyntaf i'r pumed.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio teganau a gwrthrychau fel 'bach' a 'mawr' wrth drafod cerbydau yn yr ardal tu allan ac wrth fesur blociau yn yr ardal adeiladu. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n ymarferol a'n llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'fwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn trafod gwahanol siapiau yn synhwyrol wrth chwarae â thoes a thorri siapiau anifeiliaid allan â siswrn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando gyda mwynhad i gerddoriaeth ac ymateb yn frwdfrydig i rigymau. Maent yn defnyddio technoleg wrth iddynt chwarae rôl yn hyderus yn y gegin ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio ffonau symudol. Maent yn defnyddio botymau’n fedrus i gynnau chwaraeydd cryno ddisgiau er mwyn gwrando ar ganeuon a rhigymau cyfarwydd. Mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu medrau meddwl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn ddeallus wrth gydweithio ag eraill wrth doddi iâ mewn dŵr i ddarganfod rhifau gwahanol. Mae llawer o blant yn defnyddio’r cyfrifiadur ac offer technoleg gwybodaeth, fel camerâu a theganau electronig yn effeithiol.

Mae bron pob un plentyn yn deall beth i’w wneud pan gânt gyfarwyddwyd yn y Gymraeg ac mae llawer yn defnyddio’r Gymraeg heb anogaeth.

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a’u cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o hunan-barch, maent yn llawn cymhelliant ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Maent yn mwynhau’r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu ac yn rhannu a gweithio’n synhwyrol â chyfoedion. Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr.

Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd a dysgu ac maent yn ymwybodol o anghenion pobl eraill ac yn dangos parch atynt. Yn unol â’u gallu a’u cyfnod datblygu, mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt yr hawl i fynegi barn. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

Mae bron pob un ohonynt, mewn perthynas â’u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw’n iach. Mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr cyn bwyta’u byrbrydau ac yfed diod. Maent yn gwneud hyn heb lawer o anogaeth. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw’n heini.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio yn bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae amser gwerthfawr yn cael ei osod yn wythnosol i staff i gyfarfod a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol mwyafrif y plant. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio yn targedu anghenion lleiafrif o blant dawnus yn effeithiol. Nid ydynt yn cael eu herio’n briodol i gyflawni ar eu gorau. Felly, nid yw’r cynllunio o dasgau ffocws yn darparu parhad, dilyniant a her i’r plant yma yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae’r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn gydlynol ac wedi’i hymgorffori’n gadarn yn y profiadau ar gyfer llawer o’r plant. Nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh mor gadarn ac mae’r cyfleoedd i’r plant i ddefnyddio’r cyfrifiadur a chyfarpar technolegol yn anghyson.

Mae’r staff yn defnyddio’r amgylchedd dan do yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol ac annibynnol. Gwneir hyn drwy weithgareddau diddorol fel peintio ac arbrofi gyda thywod, iâ a dŵr. Nid yw’r defnydd o’r ardal allanol mor greadigol ac nid oes digon o her i blant tu allan i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, maent yn cael cyfleoedd da i yrru’n frochus o gwmpas yr ardal allanol ar gerbydau.

Mae plant yn ymweld â lleoedd y tu allan i’r lleoliad yn rheolaidd. Er enghraifft, mae ymweliadau â siopiau lleol, Llyn Tegid, y llyfrgell a pharc y dref yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm. Mae hyn yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol ac yn creu ymwybyddiaeth glir o’u milltir sgwâr. Maent hefyd yn dysgu’n bwrpasol oddi wrth bobl sy’n ymweld â’r lleoliad fel darllenwyr storïau, swyddogion tân a’r heddlu.

Darperir cyfleoedd cadarn i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu am wyliau Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen a gwyliau diwylliannau eraill fel Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn ystyrlon. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn y Gymraeg.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl staff yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan ran fwyaf o blant, heblaw am leiafrif o blant hŷn, mwy abl sydd ddim yn cael eu herio digon. Mae’r arweinydd a’r staff yn cynllunio cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plentyn a’u harwain gan oedolion. Mae’r oedolion yn ymyrryd yn bwrpasol mewn gweithgareddau’r plant. Maent yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiynau.

Mae'r system o rannu dyletswyddau wedi'i hen sefydlu, sy'n golygu bod staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae’r holl staff yn weithredol ac maent yn deall y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd i ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad ymarferol. Mae’r staff yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith da eu hunain ac yn darparu amgylchedd ysgogol a chyffrous y tu mewn i’r adeilad. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio cwestiynu effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant.

Mae’r staff yn cynnwys plant wrth asesu eu dysgu eu hunain ac maent yn trafod yn synhwyrol â’r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Maent yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gydwybodol. Maent yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau i fesur cynnydd plant mewn llyfrau personol ac ar gofnod cynnydd pob un plentyn. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n briodol am gyflawniadau eu plant. Mae’r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol. Er enghraifft, mae cyfleoedd gweithredol ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed diod o amgylch y bwrdd bwyta. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r plant yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau amgylcheddol. Maent yn ailgylchu papur, cardbord a photeli plastig ac yn compostio bwyd yn yr ardal allanol. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol a chyson, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan y staff cymwysterau addas a phrofiad helaeth ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar glo a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Ni all unrhyw un ddod mewn a ni all unrhyw blentyn adael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i blant gael eu casglu ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r lleoliad yn nodi'n effeithiol anghenion dysgu plant pan fyddant yn ymuno. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen o gymorth ychwanegol yn cael eu cefnogi'n bwrpasol. Mae'r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Trwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd sy'n cael ei fabwysiadu gan y staff, mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth trwy ddefnyddio storïau penodol a chymeriadau gwahanol. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r cyfarpar. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant yn gyson i symud yn rhydd o gwmpas yr ystafelloedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr holl feysydd dysgu. Mae'r adnoddau'n hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o

gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Caiff adnoddau eu rhannu'n effeithiol rhwng gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae'r ardal allanol wedi ei drefnu'n briodol. Ar hyn o bryd, nid yw’r staff yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol i dargedu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i blant dyfu planhigion mewn ardaloedd plannu penodol. Mae’r adeilad o ansawdd priodol, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd synnwyr o ddiben, sy’n hyrwyddo a chynnal gwelliant. Caiff yr addysgu a’r dysgu eu rheoli’n dda, ac yn gyffredinol, mae’r disgwyliadau’n gadarn. Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod staff yn deall eu rolau’n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn synhwyrol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd y staff ac mae’n herio’r staff at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol.

Mae'r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli’n cynllunio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant. Mae’r berthynas gyda phlant, rhieni a gofalwyr a’r pwyllgor rheoli yn bositif. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at yr ymdeimlad o gymuned sy’n perthyn i’r lleoliad.

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson ac mae ganddynt ffocws cynaliadwy ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Mae blaenoriaethau clir ar gyfer gwella yn cael eu nodi drwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â’r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gref ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r arweinyddiaeth yn sicrhau fod deilliannau ar gyfer y plant yn dda. Mae'r arweinyddiaeth yn rhoi polisïau a mentrau ar waith yn effeithlon, gan gynnwys y rhai sy’n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r fframwaith ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r holl staff yn adnabod eu lleoliad yn dda. Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro safonau’r plant a’r ddarpariaeth. Sicrheir hyn trwy gydweithio’n effeithiol yn ddyddiol, asesu’n gydwybodol, rhannu syniadau a defnyddio’r cyllid yn synhwyrol ar gyfer adnoddau defnyddiol. Felly, caiff cryfderau a meysydd i’w datblygu eu cydnabod yn gyson dda. O ganlyniad, cymerir camau i gynnal arferion effeithiol a rhoi newid ar waith yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau clir rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy’n gyrru’r gwelliannau yn y lleoliad.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy holl waith y lleoliad. Mae’r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent newydd fabwysiadu cynllun llythrennedd newydd er mwyn codi safonau’r plant a chefnogi'r broses o drosglwyddo i’r ysgolion lleol. Maent yn awyddus i rannu eu gwybodaeth gyda phartneriaid eraill fel yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin.

Mae'r staff yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r hunanarfarnu a’r asesu wedi effeithio’n gadarnhaol ar ansawdd y profiadau dysgu a’r addysgu. Caiff hyn effaith bwrpasol ar ddysgu a lles plant.

Mae’r hunanarfarnu yn ystyried barn plant, eu rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin yn fwriadol. Mae hyn o fudd i ddatblygiad y lleoliad. Mae’r pwyllgor rheoli a’r arweinydd yn dangos yn glir sut maent wedi gwella’r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor wrth eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o bartneriaethau’n cyfrannu’n gryf at gyflawniadau da a lles y plant. Mae’r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Caiff rhieni eu hysbysu’n rheolaidd am bob agwedd o waith a digwyddiadau’r lleoliad. Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â staff yn ddyddiol.

Mae cysylltiadau gyda'r ysgolion lleol wedi'u sefydlu'n briodol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu. Mae’r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin yn elwa’r lleoliad yn fawr, drwy weithredu polisïau a chynghori’r pwyllgor rheoli. Mae'r cydweithrediad parod rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol yn fuddiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae’r cyngor a'r awgrymiadau’n helpu symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth bwrpasol ac arweinyddiaeth effeithiol.

Mae’r staff yn gweithio’n ddiwyd gyda’i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol. Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarn ac mae'n anelu’n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae cymuned ddysgu broffesiynol sefydlog yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae’r cynllunio strategol yn cefnogi’r addysgu o ansawdd da ar draws y lleoliad.

Caiff adnoddau eu rheoli a’u defnyddio’n bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth

gadarn o'u cyllideb.  Maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella.  Caiff penderfyniadau ariannol eu harfarnu gan y pwyllgor rheoli i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ddeilliannau fel cyflawniadau a lles y plant.  Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n sicrhau fod gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau a hyfforddiant priodol.

Yn sgil cynnydd cyson y plant, effaith y staff diwyd ar safonau a lles y plant, cefnogaeth y pwyllgor rheoli a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |